



Taith Gylchol Bryniau Prestatyn



Manylion y llwybr

Taith gerdded sy'n dilyn Llwybr Prestatyn–Dyserth ac ym ymweld â therfyn gogleddol Llwybr Clawdd Offa. Gellir gwneud taith gerdded estynedig i Raeadr Dyserth.

Pellter: 6 milltir / 9.7 km (gydag estyniad o 2.2 milltir / 3.5 km)

Man cychwyn: Gorsaf drenau Prestatyn

Cyfeirnod grid y man cychwyn: SJ 06417 83079

Disgrifiad what3words y man cychwyn: ychydig.adolygaf.bricyll



Cychwyn

Cychwynnwg yng ngorsaf drenau Prestatyn, lle mae'r bont droed uwchben y platfformau yn cynnig golygfeydd da. Cerddwch tuag at ganol y dref, ond trowch i'r dde ar gylchfan fach i gerdded ar hyd Ffordd y Bont. Ewch yn syth drwy groesffordd gyda goleuadau traffig, gan

ddefnyddio croesfan i gerddwyr. Pasiwch yr orsaf fysiau fach a cherddwch ar hyd Gas Works Lane, sy'n dod yn ffordd goncrit gul. Trowch i'r chwith ar hyd llwybr beicio tarmac sydd wedi'i nodi fel 'Llwybr Milltiroedd Cymunedol'. Ar y naill ochr a'r llall mae llwyni, sy'n ei gwneud yn hafan bywyd gwyllt mewn ardal drefol. Croeswch ffordd a pharhau ar hyd y llwybr tarmac yn dilyn arwydd am Ddyserth. Roedd hon yn arfer bod yn rheilffordd, ond bellach mae'n gwasanaethu fel Llwybr Prestatyn–Dyserth.

Dilynwch y llwybr o dan bont ffordd ac ewch yn syth ymlaen drwy groesffordd o lwybrau. Ewch o dan bont ffordd arall a daliwch ati i gerdded yn raddol i fyny'r allt i ffordd o'r maestrefi, gan basio cwrs golff lle mae bwyd a diod ar gael. Mae'r llwybr yn ddiweddarach yn mynd heibio i gerflun sy'n edrych fel camera meginau hen ffasiwn, lle cewch wahoddiad i dynnu llun. Yn ddiweddarach, croeswch bont dros ffordd yn Alltmelyd a chyrraedd Y Shed, sef hen adeilad nwyddau rheilffordd sydd bellach yn ganolfan dreftadaeth, caffi a becws.

Llwybr Glyndŵr TAITH BYR Taith Gylchol Bryniau Prestatyn



Mae hyd yn oed esgidiau ar werth a gwasanaeth podiatreg, pe bai angen y naill neu'r llall ar y daith gerdded hon!

Mae'r hen reilffordd yn parhau drwy goedwigoedd, yna mae darn ohoni wedi'i thorri allan o lethrau calchfaen serth Graig Fawr. Pan fydd pont arall yn croesi ffordd, mae angen gwneud penderfyniad. Naill ai trowch i'r chwith ychydig cyn y bont, ar hyd llwybr coetir, neu ewch ymlaen ar hyd yr hen reilffordd am daith gerdded estynedig a chyfle i ymweld â rhaeadr braf.


Am y daith gerdded estynedig – parhewch ar hyd yr hen reilffordd, sy'n mynd trwy doriad creigiog yn y coed. Dylech gyrraedd bwa carreg sy'n cario ffordd dros yr hen lein, a sylwch y byddwch yn dychwelyd yma nes ymlaen. Parhewch ar hyd y rheilffordd, gan fynd o dan fwa carreg arall. Ewch heibio craen bach a giât rwystr i gyrraedd maes parcio bach a ffordd yr A5151. Trowch i'r dde i fyny'r ffordd, yna dilynwch hi i lawr yr allt ac ar hyd stryd fawr pentref Dyserth. Ewch heibio tafarn o'r enw Y-Bodunig, yna trowch i'r dde wrth gyffordd ar hyd Bryn-y-felin. Trowch i'r dde ar groesffordd, i lawr ffordd arall sy'n gorffen wrth dŷ o'r enw Pen Rhaeadr. Trowch i'r chwith i lawr llwybr concrit gyda 124 o risiau, gan ymuno â ffordd ar bwys y Waterfall Shop a'i chaffi bach.

Gofynnir am gyfraniad o 50c i ddilyn llwybr byr i Rhaeadr Dyserth, a welir o bont droed yn edrych i mewn i geunant cul. Yn union o'ch blaen mae dwy wal gerrig gadarn a oedd yn ôl pob tebyg yn dal olwyn ddŵr.

Dringwch 140 o risiau, yn gyntaf rhwng y waliau cerrig ac yna i fyny'r llethr garw uwchben. Ewch i lawr dwsin o risiau pren i mewn i goetir. Trowch i'r dde i ddilyn llwybr a chroesi pont droed hir dros afon. Mae llwybr concrit gyda 38 o risiau yn dringo yn ôl i'r tŷ a basiwyd ynghynt, sef Pen Rhaeadr. Cerddwch i fyny'r ffordd, trowch i'r chwith ar y groesffordd, yna i'r chwith eto i ailddilyn eich camau i fyny trwy Ddyserth ar hyd ffordd yr A5151. Ar ôl taith gerdded fer i lawr yr allt, trowch i'r chwith i mewn i'r maes parcio bach i ailddilyn eich camau ar hyd yr hen reilffordd. Ewch o dan un bwa carreg, ond trowch i'r dde yn union cyn y bwa carreg nesaf. Mae llwybr yn arwain i fyny at ffordd, yna trowch i'r dde i ddilyn y ffordd i fyny'r allt. Pan gyrhaeddir cyffordd wrth dŷ o'r enw Haulfryn, trowch i'r chwith i gyrraedd cyffordd arall, yna i'r chwith eto, a bron yn syth i'r dde i fynd i mewn i faes parcio bach. Ewch drwy giât ac anwybyddwch llwybr sydd ag arwydd am olygfan; yn lle hynny, trowch i'r dde i ddilyn llwybr sy'n gyfochrog â'r ffordd.

I hepgor y daith gerdded estynedig – trowch i'r chwith i adael yr hen reilffordd a dilynwch llwybr coetir. Ewch i fyny ychydig o risiau ac ewch drwy giât mochyn. Mae llwybr y coetir yn dringo'n gyfochrog â ffordd, yna'n parhau trwy redyn ac yn mynd trwy giât mochyn arall i mewn i gae. Ewch heibio maes parcio bach ac anwybyddu llwybr sydd ag arwydd ar gyfer golygfan. Arhoswch ar llwybr sy'n rhedeg yn gyfochrog â'r ffordd, gan ddringo nes bod giât mochyn yn rhoi mynediad i'r ffordd ar bwys Mount House.

Llwybr Glyndŵr TAITH BYR Taith Gylchol Bryniau Prestatyn



Trowch i'r chwith ar hyd y ffordd, gan ei dilyn i lawr ac i fyny'r allt, yna trowch i'r chwith ar gyffordd i weld arwyddbost Llwybr Clawdd Offa ar y dde, ynghyd â'r logos mes sy'n nodi'r llwybr. Dilynwch drac i lawr at dŷ ac yna cadwch i'r dde o'r tŷ i gerdded i fyny llwybr coetir. Mae hyn yn amlwg ac wedi'i farcio'n dda, ond gofalwch eich bod yn cadw lygad am bostyn marcio yn pwyntio i'r dde wrth fforc. Nesaf, mae arwyddbost yn pwyntio i'r chwith a chyrrhaeddir ael laswelltlog yn edrych dros Brestatyn. Cerddwch ar hyd ymyl chwarel sydd wedi'i ffensio ac mae'r llwybr yn croesi llethr serth, agored. Pan gyrhaeddir arwyddbost, dringwch fel y dangosir ar gyfer Llwybr Clawdd Offa a Phrestatyn.

Cerddwch i fyny drwy giât mochyn a dringwch yn serth i fyny llwybr lle mae grisiau carreg amrwd wedi cael eu siapio gan y creigwely calchfaen ei hun. Ewch i lawr rhes o risiau pren, gan barhau drwy giât fechan mewn ffens. Cerddwch i lawr y rhiw ychydig ymhellach, yna i fyny'r allt, gan gadw'n syth ymlaen yn dilyn arwydd drwy giât fechan arall. Mae llwybr cul yn croesi llethr agored sy'n edrych dros Brestatyn. Ewch drwy giât mochyn a dilynwch y llwybr yn raddol i lawr yr allt heibio i lwyni. Ar ôl mynd i lawr grisiau, mae gan y llwybr ffens wrth ei ochr wrth iddo redeg i lawr llethr coediog. Ar ôl i'r ffens ddod i ben, mae postyn marcio trwchus yn nodi troad i'r chwith i lawr llwybr troellog a grisiau i faes parcio bach mewn hen chwarel.

Yn dilyn arwydd, cerddwch i lawr ffordd serth, gan droi i'r dde ar y gwaelod ar hyd ffordd wastad. Trowch i'r chwith i lawr ffordd serth arall, sydd yn bennaf heb balmant wrth iddi ddisgyn i Brestatyn. Ewch drwy groesffordd gyda goleuadau traffig a sylwch ar hysbysfwrdd yn rhoi gwybodaeth am Llwybr Clawdd Offa. Cerddwch yn syth i lawr Stryd Fawr, gan fynd heibio nifer o siopau a busnesau a gweld logos mes Llwybr Clawdd Offa wedi'u gosod yn y palmant, yn ogystal â gosod uwchben lefel y llygad ar byst lampau. Mae cerdded yn syth ymlaen yn arwain yn ôl at yr orsaf drenau lle cychwynnodd y daith, ond argymhellir eich bod yn cerdded i'r arfordir ac yn ôl.

Croeswch y bont droed dros y rheilffordd, gan sylwi ar luniau o Frenin Offa o Fersia wedi'u hysgythru ar baneli gwydr. Gan ddod i lawr o'r bont droed, cerddwch yn syth ymlaen ar hyd ffordd, gan ddefnyddio croesfan i gerddwyr ar groesffordd brysur, yna ewch yn syth ymlaen ar hyd Bastion Road. Mae hyn yn arwain at Ganolfan Nova a'r Traeth Canolog. Mae arwyddbost ar gyfer Llwybr Clawdd Offa yn pwyntio'n ôl i Gas-gwent ymhell i ffordd ar arfordir y de, gan roi'r pellter fel 177 milltir (285 km). Yr enw ar gerflun uchel o ddur yw 'Dechrau a Diwedd', yn dibynnu i ba gyfeiriad y byddwch yn dilyn y llwybr. (Mae Llwybr Arfordir Cymru 870 milltir (1,400 km) yn mynd ar ei ffordd o Gaer i Gas-gwent.) Y cyfan sydd ar ôl yw dilyn y ffordd yn ôl i orsaf drenau Prestatyn i orffen. Cyn dal trênn, crwydrwch ar hyd y platfformau i weld cerflun o 'Rhodri'r Cerddwr' yn sefyll wrth ymyl arwyddbost Llwybr Clawdd Offa.

Parcio: Maes parcio yng ngorsaf drenau Prestatyn, Parc Prestatyn, Canolfan Nova, y Traeth Canolog a lleoliadau eraill o amgylch y dref.

Bysiau: Mae gwasanaethau bus dyddiol yn cysylltu Prestatyn â Chaer a Llandudno, ac mae gwasanaeth sy'n cysylltu Prestatyn â'r Rhyl hefyd yn stopio yn Nyserth.

Trenau: Mae gwasanaethau trênn dyddiol Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru yn cysylltu Prestatyn â Chaer gybi a Chaer.